

# Newyddlen Trafnidiaeth Llanbedr
# Transport Newsletter

Awst/ August 2025

## Y Broses WelTAG Cam 2 a 3

Rydym nawr yn nesáu at y camau terfynol o astudiaeth Gam 2 WelTAG. Mae asesiadau technegol ac adborth y cyhoedd wedi galluogi i ni leihau'r opsiynau, ac mae'r tîm project yn paratoi i argymell yr opsiwn a ffafrir.

Trwy Awst a Medi, bydd cyfarfodydd grwpiau adolygu yn cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r opsiwn argymhellir ac yn dilyn hyn, byddwn yn trefnu gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol i esbonio'r broses penderfynu.

Bydd y trafodaethau yma yn pontio i Gam 3 y WelTAG, ar gyfer datblygu achos busnes llawn. Mae'r cyfnod nesaf yn cynnwys gwerthusiad manylach a phellach o'r opsiwn a ddewiswyd.

Diolch am eich diddordeb a chyfranogiad parhaus.

## WelTAG Process Stage 2 & 3

We're now approaching the final stages of the WelTAG Stage 2 study. Technical assessments and public feedback have helped narrow the list of options, and the project team is preparing to recommend a preferred option.

Throughout August and September, review group meetings will be held with Welsh Government to confirm the recommended option and following this, a workshop with key stakeholders will be arranged to explain the decision-making process.

These conversations will guide the transition into WelTAG Stage 3, where a full business case will be developed. The next phase involves a further, more detailed appraisal of the selected option.

Thank you for your continued interest and participation.

# Y Broses WelTAG Cam 2 a 3 (parhau)

Er mwyn i'r gymuned ddeall y broses WelTAG dyma linc i dudalen eglurhad gan Lywodraeth Cymru Arweiniad ar arfarnu trafnidiaeth Cymru (WelTAG) | LLYW.CYMRU

Dyma grynhoad o'r broses:
***"Dylid defnyddio WelTAG i ddatblygu a gwerthuso cynigion trafnidiaeth sy'n cael eu hyrwyddo neu eu hariannu gan Lywodraeth Cymru."***

Mae dau brif bwrpas i WelTAG:
- Nodi'r opsiwn fyddai'n perfformio orau
- Caniatáu cymhariaeth o gynlluniau tebyg

Mae'r ddogfen hon:
- yn disgrifio sut i gynllunio a datblygu cynigion trafnidiaeth
- yn rhoi cyngor ar sut i gynnal gwerthusiad
- yn dangos sut i gyflwyno canlyniadau gwerthuso
- yn rhoi cyngor ynghylch monitro a gwerthuso wedi eu rhoi ar waith

Gall unrhyw un ddefnyddio WelTAG ar gyfer unrhyw brosiect trafnidiaeth. Rydym yn defnyddio WelTAG i gynllunio llawer o wahanol fathau o drafnidiaeth, gan gynnwys rheilffyrdd a beicio ynghyd a phan fydd angen i ni atgyweirio neu newid y ffyrdd.

# WelTAG Process Stage 2 & 3 (continued)

To ensure that the community understands the WelTAG process here is a link to an explanation from the Welsh Government Welsh transport appraisal guidance (WelTAG) | GOV.WALES

Here's a summary of the process:
***"WelTAG should be used in the development and appraisal of transport proposals promoted or funded by Welsh Government."***

There are two purposes to WelTAG:
- Identify the best performing option
- Allow a comparison of similar options

This document:
- describes how to design and develop transport proposals
- provides advice on how to conduct an appraisal
- show how to present the appraisal results
- provides advice on monitoring and evaluation implemented

Anyone can use WelTAG for any transport project. We use WelTAG to plan a variety of modes of transport, including trains and cycling along with when repairing or changing the roads.

## Y Broses WelTAG Cam 2 a 3 (parhau)

Mae'r Gweithgor aml asiantaeth yn parhau i gwrdd yn fisol a gweithio drwy wahanol agweddau'r cynllun. Rydym yn deall fod y prosesau yn cymryd amser ond y bwriad yw gweithredu mewn modd cynhwysfawr drwy fynd drwy'r prosesau yn y gobaith fydd hyn yn lliniaru unrhyw risgiau neu heriau posib yn y dyfodol.

Mae gwaith WelTAG Cam 2 yn dirwyn i ben dros yr haf. Bydd yr adroddiad yn cael ei adolygu yn gyntaf gan y Gweithgor aml asiantaeth mis Awst ac yna ymlaen i'w adolygu gan Llywodraeth Cymru yn ystod mis Medi 2025. Yn dilyn hynny, byddwn yn rhyddhau'r adroddiad terfynol Cam 2 ynghyd a chadarnhau canlyniad y WelTAG Cam 2 a'r opsiwn fyddai'n perfformio orau.

## WelTAG Process Stage 2 & 3 (continued)

The multi-agency Working Group continue to meet monthly and are working through different aspects of the scheme. We understand that the processes take time however the purpose is to operate in a comprehensive way through continuing through the processes in the hope to alleviate any possible future risks or challenges.

Stage 2 of the WelTAG work is coming to an end over the summer. The report will be reviewed by the Multi-Agency Working Group in August and onwards to be reviewed by the Welsh Government during September 2025. Following this, we will be releasing the final report for Stage 2 and confirm the result of WelTAG Stage 2 and the best performing option.

## Cyfathrebu

Yn dilyn yr holl waith ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol cymuned Llanbedr a'r gymuned yn ehangach drwy brosesau Cam 1 a 2 byddwn yn rhyddhau crynodeb o'r holl adborth yn fuan.

Mae cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Thrafnidiaeth Cymru ynghyd ac ymgynghorwyr WSP a YGC yn cyfarfod yn fisol fel Gweithgor i drafod/adrodd ar waith trafnidiaeth yn Llanbedr. Mae'r gwaith yn anelu i ymateb yn bositif i argymhellion Panel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru drwy'r broses WelTAG. Mae hyn yn golygu ystyried opsiynau ac ymyraethau amrywiol i gynnig pecynnau o fesuriadau i ddylanwadu'n bositif ar dagfeydd a phryderon diogelwch sy'n cael eu codi gan y gymuned leol ynghyd a hwyluso a hyrwyddo modd o deithio iachus a chynaliadwy, yn cynnwys teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r Gweithgor yma yn cyfathrebu gyda'r gymuned drwy'r Cynghorwyr Sir Leol Annwen Hughes a Gwynfor Owen ynghyd a Chyngor Cymuned Llanbedr, a drwy Newyddlen reolaidd.

**Mae'r wybodaeth am y gwaith gan gynnwys y Newyddlenni diweddar a blaenorol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd drwy'r linc yma**

www.gwynedd.llyw.cymru/TrafnidiaethLlanbedr

## Communication

Following the entire consultation work with Llanbedr community's key stakeholders and the wider community through Stage 1 and 2 process we will be releasing a summary of all the feedback soon.

Representatives from Cyngor Gwynedd, Eryri National Park, Transport for Wales and the Welsh Government along with consultants WSP and YGC meet every month as a Working Group to report/discuss the transport work in Llanbedr. The work is being undertaken with a view of responding positively to the recommendations of the Welsh Government's Roads Review Panel through the WelTAG process. This means considering various options and interventions to offer a package of measures that look to have a positive influence on the congestion and safety concerns raised by the local community as well as facilitating and promoting healthy and sustainable means of travel including active travel and public transport.

The Group communicates with the community through Local County Councillors Annwen Hughes and Gwynfor Owen along with Llanbedr Community Council and a regular Newsletter.

**The most recent and previous Newsletters along with information about the work is available on Cyngor Gwynedd's website through this link**

www.gwynedd.llyw.cymru/LlanbedrTransport

## Cyllid

Mae hyd at £540,000 ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2025 - Mawrth 2026 yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llywodraeth Cymru ar gyfer:

- Cwblhau adroddiad WelTAG Cam 2
- Ymgymryd ag astudiaeth Cam 3 WelTAG ar welliannau trafnidiaeth yn ac o amgylch Llanbedr ac ymgymryd â gweithgareddau cysylltiol datblygiad prosiect

## Finance

Up to £540,000 has been made available for the financial year April 2025 - March 2026 following a successful application to the Welsh Government Local Transport Fund:

- To complete the WelTAG Stage 2 report
- To undertake a WelTAG Stage 3 study on transport improvements in and around Llanbedr and undertake associated project development activities